CYNGORGWYNEDD

gwynedd.llyw.cymru

# Cynllun Asedau

# 2024/25 – 2034/35

## Cyflwyniad

1. Hwn yw Cynllun Asedau Cyngor Gwynedd ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd sy'n cychwyn yn 2024/25.
2. Cynllun y Cyngor sy'n gosod allan beth yw meysydd blaenoriaeth y Cyngor ynghyd a'i amcanion llesiant yn unol â gofynion y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
3. Er mwyn cyflawni'r amcanion yma, mae gwasanaethau yn gorfod defnyddio nifer o amrywiol asedau.
4. Cam cyntaf creu'r Cynllun yma oedd gofyn i adrannau'r Cyngor nodi pa gynlluniau cyfalaf yr oeddent angen eu gwireddu dros y 10 mlynedd nesaf er mwyn cyflawni'r amcanion hynny.
5. Cafodd pob aelod o'r Cyngor gyfle i chwarae rhan yn y broses o asesu'r risg ynghlwm i beidio a buddsoddi ym mhob cynllun unigol ac fe wnaeth y Cabinet ystyried yr hyn ddaeth allan o'r broses honno wrth lunio'r Cynllun yma.
6. Mae'r Cynllun Asedau felly yn cymryd yr holl anghenion gwariant cyfalaf y mae'r adrannau wedi nodi y maent eu hangen er mwyn cyflawni i drigolion Gwynedd ac yn pwyso a mesur y risg o beidio gallu cyflawni.
7. Yn amlwg, byddai'r Cyngor yn dymuno cyflawni pob cynllun yr oedd yr Adrannau wedi eu hadnabod ond o ystyried yr hyn a wyddom ar hyn o bryd am yr adnoddau fydd ar gael i'r Cyngor dros y cyfnod 10 mlynedd nesaf, ni fydd yr adnoddau hynny yn caniatáu i ni wneud pob un cynllun.
8. Wedi dweud hynny, fe all sefyllfa newid dros y cyfnod hwnnw a byddwn yn adolygu'r cynllun hwn yng ngoleuni unrhyw adnoddau pellach a ddau neu unrhyw newid mewn amgylchiadau.
9. Bydd y Cynllun yma yn gosod strategaeth ar gyfer gwariant gyfalaf ar gyfer y 10 mlynedd i ddod a hwn felly fydd yn gyrru ein cyllidebau cyfalaf blynyddol.

## Adnoddau

10. Yn ein Cynllun Rheoli Asedau presennol, mae nifer o gynlluniau wedi cwblhau ac felly ni fyddent yn ffurfio rhan o'r Cynllun hwn. Mae cynlluniau eraill sydd ar y gweill neu heb eu cwblhau yn llawn ac felly'n trosglwyddo i'r cynllun yma, ynghyd â'r cyllid sydd eisoes wedi ei gymeradwyo ar gyfer eu hariannu, sef **£40.5M**.
11. Wrth osod ein cynllun 10 mlynedd newydd, rhagdybiwn fod £47.7M o arian cyfalaf ar gael i ni ymestyn ein cynllun am 5 mlynedd ychwanegol. Down at y casgliad yma wedi ystyried ein swm grant cyfalaf blynyddol ynghyd â chyfalaf a chronfeydd sydd heb eu dyrannu yn y Cynllun Rheoli Asedau presennol.

12. O ychwanegu'r arian newydd a gyfeirir ato uchod at yr arian oedd eisoes wedi ei glustnodi gennym yn y Cynllun Presennol (£40.5M), golyga hyn y bydd ein Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer 2024-2034 yn cynnwys buddsoddiad o £88.2M yn ein asedau er mwyn gallu darparu gwasanaethau i drigolion Gwynedd.

13. Mae'n bosib dros y 10 mlynedd nesaf y byddwn yn gweld mwy o adnoddau yn dod i'n rhan drwy grantiau penodol at ddibenion penodol a dylem fod yn fyw i hyn oll er mwyn ceisio uchafu'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer ein hanghenion craidd.

14. Nodir isod yr anghenion gwario fydd yn gallu cael eu cyfarch gan y Cynllun Asedau hwn. Nodir y cynlluniau mewn 3 grŵp:

    Rhan A - Cynlluniau y mae modd cyflawni o fewn yr amlen adnoddau sydd gennym

    Rhan B - Cynlluniau lle bydd yn rhaid eu cyfarch drwy ddull arall

    Rhan C - Cynlluniau lle bydd angen aros i weld a allwn ychwanegu at yr adnodd fydd gennym cyn y gellir cadarnhau i ba raddau y bydd modd i ni eu cyflawni.

15. Os daw adnoddau pellach i'n rhan byddwn yn blaenoriaethu'r cynlluniau na ellir eu cymeradwyo ar hyn o bryd yn rhan C.

**Rhan A: Cynlluniau y mae modd cyflawni o fewn yr amlen adnoddau sydd gennym**

| Rhif | Adran | Cynllun | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Addysg | Ysgol newydd i ddidoli adeilad Ysgol Treferthyr, Criccieth | Ysgol newydd i ddisodli adeilad mewn cyflwr difrifol na ellir ei gynnal yn y dyfodol – arian cyfatebol ar gyfer denu grant Llywodraeth Cymru i gyllido 65% o'r prosiect.<br><br>Eisoes wedi ei gymeradwyo yn y Cynllun Asedau blaenorol a'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo. Mae'r swm yn cynnwys yr hyn sy'n parhau o'r Cynllun Asedau blaenorol ynghyd â £1.1m o gyfraniad ychwanegol tuag at gynnydd mewn costau. | £2,781,000 |
| A2 | Addysg | Uwchraddio cyflwr ac addasrwydd ysgolion | Cwblhau rhaglen buddsoddi i godi ansawdd yn ein hysgolion – arian cyfatebol i ddenu grant Llywodraeth Cymru i gyllido 65%.<br><br>Eisoes wedi ei gymeradwyo yn y Cynllun Asedau blaenorol a'r gwaith yn mynd rhagddo neu wedi gwblhau mewn rhai ysgolion. Mae'r swm yn cynnwys yr hyn sy'n parhau o'r Cynllun a chyllido £940,000 o gynnydd mewn costau. | £2,995,000 |
| A3 | Addysg | Ysgol Hirael, Bangor | Cwblhau buddsoddiad yn y gyfundrefn cynradd ym Mangor – arian cyfatebol i ddenu grant Llywodraeth Cymru i gyllido 65%. | £1,975,000 |
| A4 | Addysg | Ysgol Tryfan, Bangor | Cryfhau darpariaeth Addysg Gymraeg Uwchradd ym Mangor – arian cyfatebol i ddenu grant Llywodraeth Cymru i gyllido 65%. | £5,200,000* |
| A5 | Addysg | Diogelu safleoedd Ysgolion Uwchradd y Sir | Nifer o geisiadau gan ysgolion uwchradd am gymorth ariannol i ddatrys materion diogelu | £300,000 |
| A6 | Amgylchedd | Cynnal astudiaethau dichonoldeb y gwasanaeth trafnidiaeth | Cyllid i gynnal astudiaethau dichonoldeb a chwblhau gwaith rhagbaratoi i'n galluogi i ymgeisio am arian grant sylweddol tuag at gynlluniau hanfodol i ddelio gyda materion diogelwch priffyrdd neu waith atgyweirio sylweddol | £615,000 |
| A7 | Amgylchedd | Cynnal y rhwydwaith lonydd glas | Gwaith cynnal angenrheidiol | £26,000 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A8 | Amgylchedd | Trawsnewid canolfannau dosbarthu a didoli Caergylchu a Ffridd Rasus | Mae angen buddsoddiad sylweddol yn Caergylchu a Ffridd Rasus yn y dyfodol agos er mwyn parhau efo'r rhaglen trawsnewid. Cyfraniad tuag at grant 80% gan Lywodraeth Cymru. | £1,380,000 |
| A9 | Cyllid | Adnewyddu offer a systemau TG | Mae defnydd technoleg gwybodaeth yn allweddol bellach i holl wasanaethau'r Cyngor ac mae angen adnodd i adnewyddu'r offer hwnnw wrth iddo ddod i ddiwedd ei oes. Y swm yma yw'r swm sydd ei angen i wneud hynny dros gyfnod 10 mlynedd y Cynllun. | £10,330,000 |
| A10 | Economi a Chymuned | Adnewyddu Harbwr a pontŵns Pwllheli | Carthu'r harbwr ac adnewyddu'r pontŵns sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes er mwyn galluogi parhau i ddefnyddio'r harbwr a gwarchod incwm. | £5,400,000 |
| A11 | Economi a Chymuned | Adnewyddu giât harbwr a pontŵns Doc Fictoria | Adnewyddu giât forol ac adnewyddu pontŵns. Mae angen adnewyddu'r giât ar frys - wedi torri am gyfnod llynedd a risg i golli incwm. Pontŵns hefyd wedi cyrraedd diwedd eu hoes. | £1,700,000 |
| A12 | Economi a Chymuned | Swyddfa'r Harbwrfeistr, Aberdyfi | Adeilad yr Harbwrfeistr wedi dod i ddiwedd ei oes ac mae'n ofyn statudol arnom fel Awdurdod yr Harbwr i ddarparu lleoliad gwaith addas ar gyfer yr harbwr feistr allu cyflawni ei ddyletswyddau. | £500,000 |
| A13 | Economi a Chymuned | Hwb Iechyd, Bangor | Cyfraniad Cyngor Gwynedd i'r Hwb. Cyfle i adleoli gwasanaethau iechyd i ganol y Ddinas a chynyddu prysurdeb canol Dinas Bangor. | £500,000 |
| A14 | Economi a Chymuned | Cwblhau prosiectau eisoes ar y gweill | Swm i gwblhau prosiectau'r Adran yn y Cynllun Asedau blaenorol, gan gynnwys ail wynebu meysydd parcio ac adnewyddu caeau chwarae pob tywydd | £107,000 |
| A15 | Plant a chefnogi teulu | Canolfan Maesgeirchen / Tŷ Cegin | Cyfraniad Cyngor Gwynedd tuag at hwb cymunedol a chyd-leoli gwasanaethau cefnogi teulu ym Maesgeirchen. | £245,000 |
| A16 | Plant a chefnogi teulu | Cartrefi Grŵp Bychain | Sefydlu Cartrefi Grŵp Bychain i blant mewn gofal yng Ngwynedd. Rydym eisoes wedi derbyn grant ar gyfer y 3 cartref cyntaf ac mae'r bid yma ar gyfer cartref 4 a 5. | £1,400,000 |
| A17 | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Hwb Iechyd a Gofal Penygroes | Cynllun i ddarparu hwb gofal integredig ym Mhenygroes. | £3,500,000 |
| A18 | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Canolfan Dolfeurig, Dolgellau | Adeilad newydd ar gyfer gwasanaeth dydd anableddau dysgu gan fod yr adeilad presennol wedi cyrraedd diwedd ei oes. | £1,690,000 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A19 | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cartrefi Henoed | Mae nifer o gartrefi wedi eu haddasu yn ddiweddar i ddarparu gwasanaeth sy'n cyfarch gwir anghenion ein trigolion i'r dyfodol e.e. mwy o ddarpariaeth dementia arbenigol a medru cyfarch anghenion mwy dwys . Mae swm yn parhau yn y Cynllun Asedau ar gyfer cwblhau y rhaglen hwn. | £604,000 |
| A20 | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Darpariaeth ar gyfer cyd-ariannu prosiectau gofal | Darpariaeth ar gyfer arian cyfatebol Cyngor Gwynedd i ymgeisio am grantiau i ariannu datblygiad gofal nyrsio | £5,000,000 |
| A21 | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Atal dirywiad Cyflwr Ffyrdd | Swm blynyddol i atal dirywiad Priffyrdd | £8,320,000 |
| A22 | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Atal Llifogydd – Prom y Gogledd, Abermaw | Cyfraniad Gwynedd (15%) i ddenu grant tuag at gynllun atal llifogydd | £3,760,000 |
| A23 | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Atal Llifogydd – Gerddi'r Traphont, Abermaw | Cyfraniad Gwynedd (15%) i ddenu grant tuag at gynllun atal llifogydd | £570,000 |
| A24 | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Atal llifogydd – dalgylch Ogwen | Cyfraniad Gwynedd (15%) i ddenu grant tuag at gynllun atal llifogydd | £300,000 |
| A25 | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Atal llifogydd – dalgylch Gwyrfai | Cyfraniad Gwynedd (15%) i ddenu grant tuag at gynllun atal llifogydd | £300,000 |
| A26 | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Atal llifogydd – cwblhau prosiectau ar y gweill | Cyfraniad Gwynedd (15%) i ddenu grant tuag at gynllun atal llifogydd – cwblhau'r prosiectau sydd eisoes ar y gweill | £80,000 |
| A27 | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Atal dirywiad strwythurau | Swm i atal dirywiad pontydd y Sir | £1,230,000 |
| A28 | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Ffensys diogelwch | Gwaith i uwchraddio ffensys diogelwch i gydymffurfio a rheolau statudol | £295,000 |
| A29 | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Llifogydd at briffordd | Cyllid i ymateb i ddifrod llifogydd ar y briffordd | £647,000 |
| A30 | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Adnewyddu goleuadau traffig | Adnewyddu colofnau a goleuadau traffig sy'n cyrraedd diwedd eu hoes. | £300,000 |
| A31 | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Tir Claddu | Darparu tir claddu digonol mewn ardaloedd penodol o fewn y Sir | £680,000 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A32 | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Adnewyddu amlosgydd | Amlosgfa Bangor – bu i'r prif amlosgydd gael ei uwchraddio yn 2023 ac fe fydd yr amlosgydd wrth gefn yn debygol o fod angen ei uwchraddio o fewn y 10 mlynedd nesaf. | £600,000 |
| A33 | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Adnewyddu canllaw waliau Friog | Adnewyddu canllaw uwchben waliau cynnal ar yr A493. | £600,000 |
| A34 | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Adnewyddu Pibellau Dŵr | Cyfraniad tuag at adnewyddu pibellau dwr yn gwasanaethu cyn dai Cyngor | £500,000 |
| A35 | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Adnewyddu fflyd heb gronfa adnewyddu | Mae nifer o wasanaethau'r Cyngor yn defnyddio cerbydau er mwyn cyflawni gwasanaethau, a thra bod rhai adrannau yn gallu adnewyddu'r cerbydau hynny drwy sefydlu Cronfa Adnewyddu ar ei cyfer, mae eraill yn ddibynnol ar y rhaglen gyfalaf i'w hadnewyddu. | £2,440,000 |
| A36 | Tai ac Eiddo | Tai gofal estynedig | Cyfraniad tuag at gostau datblygu tai gofal estynedig | £1,000,000 |
| A37 | Tai ac Eiddo | Grantiau addasiadau tai | Cynllun i wneud addasiadau i eiddo i alluogi pobl anabl i barhau i fyw yn eu cartrefi neu i hwyluso gadael yr ysbyty. | £13,100,000 |
| A38 | Tai ac Eiddo | Gwaredu Asbestos | Mae'r Cyngor yn flynyddol yn archwilio pob darn o asbestos sydd yn ein hadeiladau, yn unol a'r gofyniad statudol. Mae'r swm yma ar gyfer gwaredu asbestos o'n hadeiladau pan mae'r angen i wneud hynny yn cael ei adnabod. | £2,140,000 |

**£1.1M ychwanegol ar gyfer y prosiect hwn drwy drefniadau benthyca*

**Rhan B: Cynlluniau y bydd yn rhaid eu cyfarch drwy ddull arall**

| Rhif | Adran | Cynllun | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|---|---|
| B39 | Tai ac Eiddo | Manddaliadau | Mae angen buddsoddi yn ein man-ddaliadau er mwyn cwrdd a'n dyletswyddau statudol a chwrdd â safonau sylfaenol– bydd yr Adran Tai ac Eiddo yn ystyried y gwaith yma wrth adolygu'r Cynllun Gweithredu Tai | £2,146,000 |
| B40 | Tai ac Eiddo | Tai Gofal Estynedig | Mae swm wedi ei gynnwys yn rhan A uchod fel cyfraniad tuag at gynllun tai estynedig a bydd gofyn i'r Adran Tai ac Eiddo ymchwilio i ffynonellau ariannu eraill i gyfarch gweddill y costau e.e. Grant Tai Cymdeithasol neu Grant Tai â Chymorth. | £1,500,000 |

**Rhan C: Cynlluniau lle bydd angen aros i weld a allwn ychwanegu at yr adnodd fydd gennym cyn y gellir cadarnhau i ba raddau y bydd modd eu cyflawni**

| Rhif | Adran | Cynllun | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|---|---|
| C41 | Addysg | Rhaglen dreigl ysgolion cynaliadwy | Mae'r amlen nesaf o Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru dros gyfnod o 9 mlynedd, felly os am ymgeisio am y grant o 65% gan y Llywodraeth, bydd gofyn i'r Cyngor gyflwyno Rhaglen Strategol Amlinellol ar gyfer y wedd nesaf o arian cyfalaf. Mae'r swm wedi ei gyfrifo ar sail 35% o amcangost ar gyfer datblygiadau posib yn y maes. | £28,000,000 |
| C42 | Tai ac Eiddo | Cynnal a Chadw Rhaglenedig | O ganlyniad i chwyddiant a ffactorau eraill, mae cynnydd sylweddol mewn costau cynnal a chadw rhaglenedig ac ymatebol yn golygu fod rhan helaeth o'n cyllidebau yn cael ei wario ar waith cynnal ymatebol. Golyga hyn nad ydym yn gallu cyflawni gwelliannau i atal ôl-groniad ein hadeiladau ac felly heb fuddsoddiad pellach mae eu cyflwr yn debygol o ddirywio. | £20,000,0000 |

**CASGLIADAU**

16. Cyfanswm cost y cynlluniau a nodir yn Rhan A yw £83.1M.
17. Ynghyd â'r £500,000 y flwyddyn sydd wedi ei glustnodi er mwyn gallu ymateb i ofynion newydd / brys, daw'r cyfanswm i £88M.
18. Bydd angen ystyried blaenoriaeth unrhyw fater newydd sy'n codi yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun hwn. Os na fydd yna ofyn gwario ar gynllun penodol mewn unrhyw flwyddyn, yna gellir rhyddhau'r adnodd hwnnw i wireddu'r cynlluniau a nodir yn Rhan C.